

Ein Cyf: NB

Gofynnwch Cyfathrebu
am:



01656 641150

Dyddiad: 7 Awst 2019



cyfathrebu
@ombwdsmon-cymru.org.uk

Cynghorydd Rob Stewart
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Abertawe

Trwy Ebst yn unig
cllr.rob.stewart@swansea.gov.uk

Annwyl Cynghorydd Rob Stewart

Llythyr Blynyddol 2018/19

Mae'n bleser gennyf ddarparu'r Llythyr Blynyddol (2018/19) ar gyfer Cyngor Abertawe. Eleni, rwy'n cyhoeddi fy Llythyrau Blynyddol fel rhan o fy Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Rwy'n gobeithio y bydd y Cyngor yn cael budd ohonynt, ac rwy'n ffyddiog y byddant yn ei alluogi i adolygu'r modd mae'n ymdrin â chwynion yng nghyd-destun cyrff cyhoeddus eraill sy'n cyflawni swyddogaethau tebyg ledled Cymru.

Er bod nifer gyffredinol y cwynion am awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cynyddu o 794 i 912, rwy'n falch fod yr awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda fy swyddfa i ddatrys llawer o'r cwynion hyn yn gynnar. Mae hyn yn darparu ffordd briodol ac amserol o unioni cam, ac mae'n golygu nad oes raid i fy swyddfa ymchwilio'n llawn i'r cwynion.

Wedi'i atodi, mae crynodeb o'r cwynion am gamweinyddu/methiant gwasanaeth a ddaeth i law am y Cyngor.

Hefyd wedi'i atodi, mae crynodeb o'r cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad a wnaed am aelodau o'r Cyngor ac aelodau o'r Cynghorau Cymuned a Thref yn eich ardal.

Tudalen 1 o 7



Erbyn hyn, mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 wedi cael ei chyflwyno. Rwy'n falch iawn fod y Cynulliad wedi cymeradwyo'r ddeddfwriaeth hon i roi pwerau newydd i fy swyddfa er mwyn ceisio:

- Gwella mynediad at fy swyddfa
- Darparu mecanwaith llyfn ar gyfer ymdrin â chwynion pan fo cysylltiad annatod rhwng y gofal mae claf yn ei gael gan y GIG a gofal iechyd preifat
- Caniatáu i mi wneud ymchwiliadau ar fy liwt fy hun pan fo angen er budd y cyhoedd
- Sicrhau bod data cwynion o bob cwr o Gymru yn gallu cael eu defnyddio i hybu gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus i ddinasyddion Cymru.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithredu'r pwerau newydd hyn yn y flwyddyn sydd i ddod.

Camau y dylai'r Cyngor eu cymryd:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet i gynorthwyo'r Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor
- Gweithio i ostwng nifer yr achosion lle mae angen i fy swyddfa ymyrryd
- Rhoi gwybod i mi erbyn **31 Hydref 2019** beth yw canlyniad ystyriaethau'r Cyngor a beth yw ei gamau arfaethedig ar gyfer y materion uchod.

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopïo i Brif Weithredwr eich Cyngor ac i'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir



Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

CC: Adam Hill, Dirprwy Brif Weithredwr
Julie Nicholas-Humphreys, Swyddog Cyswllt

Taflen Ffeithiau

A. Cwynion a gafwyd ac yr ymchwiliwyd iddynt, gyda chyfartaledd yr Awdurdod Lleol wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth

Awdurdod Lleol	Cwynion a Gafwyd	Cyfartaledd	Cwynion yr ymchwiliwyd iddynt	Cyfartaledd
Dinas a Sir Abertawe 2018/19	83	70	0	2
Dinas a Sir Abertawe 2017/18	62	61	1	2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	8	20	0	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	33	41	0	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	65	51	1	1
Cyngor Caerdydd	115	103	0	2
Cyngor Sir Caerfyrddin	49	53	1	1
Cyngor Sir Ceredigion	23	21	0	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	41	33	2	1
Cyngor Sir Ddinbych	26	27	1	1
Cyngor Sir y Fflint	50	44	2	1
Cyngor Gwynedd	32	35	2	1
Cyngor Sir Ynys Môn	31	20	2	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	15	17	0	0
Cyngor Sir Fynwy	20	27	0	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	38	40	1	1
Cyngor Dinas Casnewydd	38	43	0	1
Cyngor Sir Benfro	35	35	0	1
Cyngor Sir Powys	67	38	4	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	36	68	0	2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	12	26	1	1
Cyngor Bro Morgannwg	24	37	0	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam	45	38	3	1
Cyfanswm	886		20	

B. Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

Dinas a Sir Abertawe	Cwynion a Gafwyd
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	13
Gwinyddiaeth Budd-daliadau	2
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	12
Ymdrin â Chwynion	8
Amgylchedd a Iechyd Amgylchedd	5
Tai	15
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	15
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	10
Eraill Amrywiol	3

C. Cymharu canlyniadau cwynion â chanlyniadau cyfartalog yr Awdurdodau Lleol, wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth

Awdurdod Lleol	Tu hwnt i Awdurdodaeth	Cynamserol	Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol	Datrys yn Gynnar / Setliad Gwirfoddol	Wedi rhoi'r gorau iddi	Adroddiad Arall - Heb ei gadarnhau	Adroddiad Arall - Wedi'i gadarnhau yn gyfan gwbl neu'n rhannol	Adroddiad budd y cyhoedd
2018/19								
Abertawe	17	23	30	8	-	-	2	-
Abertawe (wedi'i addasu)	13	22	24	9	-	1	1	-
2017/18								
Abertawe	15	16	19	10	-	1	1	-
Abertawe (wedi'i addasu)	11	17	21	8	-	1	1	-

CH. Nifer yr achosion lle ymyrrodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)

Awdurdod Lleol	Nifer y cwynion lle ymyrrodd OGCC	Cyfanswm y cwynion a gaewyd	% y cwynion lle ymyrrodd OGCC
Dinas a Sir Abertawe 2018/19	10	80	13%
Dinas a Sir Abertawe 2017/18	11	62	18%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	2	7	29%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	6	36	17%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	8	68	12%
Cyngor Caerdydd	19	110	17%
Cyngor Sir Caerfyrddin	4	48	8%
Cyngor Sir Ceredigion	5	24	21%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	5	39	13%
Cyngor Sir Ddinbych	4	30	13%
Cyngor Sir y Fflint	16	56	29%
Cyngor Gwynedd	6	35	17%
Cyngor Sir Ynys Môn	5	31	16%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	0	14	0%
Cyngor Sir Fynwy	0	23	0%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	4	40	10%
Cyngor Dinas Casnewydd	7	43	16%
Cyngor Sir Benfro	6	33	18%
Cyngor Sir Powys	11	64	17%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	4	34	12%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	1	12	8%
Cyngor Bro Morgannwg	7	30	23%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	8	43	19%

D. Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad a gaewyd

Awdurdod Lleol	Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol	Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau	Cyfeirio at y Panel Dyfarnu	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
2018/19								
Abertawe	4	-	-	1	-	-	-	5
2017/18								
Abertawe	6	-	-	-	-	-	-	6

DD. Cwynion Cod Ymddygiad cynghorau tref/cymuned

Cyngor Tref/ Cyngor Cymuned	Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol	Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau	Cyfeirio at y Panel Dyfarnu	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
CT Gorseinon	2	-	-	-	-	-	-	2
CC Mwmbwls	1	-	-	-	-	-	-	1

Atodiad

Nodiadau esboniadol

Mae adran A yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn yr Awdurdod Lleol a ddaeth i law ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn ystod 2018/19, â'r cyfartaledd ar gyfer Awdurdodau Lleol (wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran B yn rhoi dadansoddiad o nifer y cwynion yn erbyn yr Awdurdod Lleol a ddaeth i fy swyddfa yn ystod 2018/19. Mae'r ffigyrau wedi'u rhannu'n gategoriau pynciol.

Mae adran C yn cymharu canlyniadau'r cwynion i'r Awdurdod Lleol yn ystod 2018/19, â'r canlyniadau ar gyfartaledd (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae Adran CH yn darparu niferoedd a chanrannau achosion a ddaeth i fy swyddfa ac a fu'n destun ymyrraeth. Mae'r rhain yn cynnwys pob cwyn a gafodd ei chadarnhau, datrysiadau cynnar a setliadau gwirfoddol.

Mae Adran D yn darparu dadansoddiad o ganlyniadau'r holl gwynion Cod Ymddygiad a ddaeth i law yn erbyn Cyngorwyr yn ystod 2018/19.

Mae Adran DD yn darparu dadansoddiad o ganlyniadau'r holl gwynion Cod Ymddygiad yn erbyn cyngorau tref neu gymuned.

Adborth

Rydym yn croesawu eich adborth am yr wybodaeth amgaaedig, gan gynnwys awgrymiadau am unrhyw wybodaeth i'w chynnwys mewn crynodebau blynyddol yn y dyfodol. Dylid cyflwyno unrhyw adborth neu ymholiadau drwy anfon neges e-bost i cyfathrebu@ombwdsmon-cymru.org.uk